**Adroddiad Etifeddiaeth gan Saving Futures: Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol mewn ymateb i Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol**

Roedd cynllun gweithredu cyntaf Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan bwysig i dynnu sylw at risg cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru, ac wedi cychwyn y sgwrs am y math yma o gam-drin plant, sy'n guddiedig iawn. Mae'r cynllun gweithredu wedi arwain at rywfaint o gynnydd o safbwynt ymwybyddiaeth a mwy o atgyfeiriadau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod bwlch o hyd rhwng nifer yr achosion a'r ymateb: ym mis Ebrill 2022, canfu adroddiad Canolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol ar dueddiadau mewn data swyddogol[1]:

- Fod 2,600 o blant ar gynlluniau amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol yng Nghymru a Lloegr,
- Ond bod yr heddlu'n cael gwybod am 89,000 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr.

Fodd bynnag, mae Canolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol yn amcangyfrif bod 500,000[2] o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol bob blwyddyn (ar sail amcangyfrifon, gan ddefnyddio arolygon hunangofnodedig dienw o samplau cynrychioliadol o'r boblogaeth). Mae hyn yn dangos yn glir bod angen parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn. Rydym yn falch y bydd Llywodraeth Cymru, yn ei hadroddiad terfynol ar gyflawni camau gweithredu'r cynllun gweithredu cyntaf, yn ystyried y ffordd orau o fonitro effaith adnoddau ymarferol newydd a gynlluniwyd i wella'r broses o adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

Fel mae ein canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn dangos, mae mwy o waith i'w wneud i barhau i ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ac i sicrhau eu bod yn cael ymateb amserol a phriodol. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol wedi galw am ail gynllun gweithredu i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gyflawni. Rydym yn falch bod **Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ail gynllun gweithredu** yn ystod Hydref 2023.

Dylai ail gynllun gweithredu gynnwys yr amcanion canlynol:

- **Dylid cynnwys hyfforddiant mewn cyrsiau cyn-cymhwyso** – mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cam-drin plant yn rhywiol yn dal yn faes ymarfer lle mae gwasanaethau ac ymarferwyr yn magu hyder. Rydym yn falch y bydd yn gweithio gyda byrddau diogelu i ystyried yr hyn a ddysgwyd yn y maes hwn. Rydym yn dweud yn glir y dylai unrhyw weithiwr proffesiynol a fydd yn dod i gysylltiad â phlant ar ôl cymhwyso ddysgu am gam-drin plant yn rhywiol fel rhan o'u hyfforddiant cyn-cymhwyso. Nodwn fod Safonau'r Hyfforddiant Cenedlaethol ar Ddiogelu a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys cyfeiriad at gamfanteisio'n rhywiol ar blant fel rhan o hyfforddiant gloywi, ac yn datgan nad '*ydynt yn nodi'r holl rolau a chyfrifoldebau ar draws y sector*. *Felly, dyletswydd sefydliadau yw nodi o fewn eu gweithlu eu hunain, pa rolau sy'n gweddu i grwpiau penodol'.* Er bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant yn rhywiol, rydym yn siomedig nad oes cyfeiriad penodol yma at gam-drin plant yn rhywiol, sy'n sicrhau bod cam-drin plant yn rhywiol yn rhan annatod o'r holl gamau dysgu proffesiynol. Bydd hyn yn gwella hyder a dealltwriaeth o sut mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn gallu edrych, gan arwain at well arferion diogelu.
- **Dylai'r broses o gasglu a gwerthuso data fod yn gyfannol, a dylid ei gwella** – Fel y gwelir yn y cyflwyniad, nid yw'r data ar nifer yr achosion yn adlewyrchu amcangyfrifon o ba mor gyffredin yw cam-drin plant yn rhywiol. Hefyd, mae adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn argymell un set ddata graidd. Rhaid i Lywodraeth Cymru gasglu data ehangach sy'n seiliedig ar fwy na dim ond cynlluniau amddiffyn lle cafodd achos o gam-drin plant yn rhywiol ei ddatgelu ar lafar. Dylid casglu data gan wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu lle mae amheuaeth o hynny, ystadegau'r

[1] http://www.csacentre.org.uk/documents/child-sexual-abuse-in-2020-21-trends-in-official-data/
[2] https://www.csacentre.org.uk/our-research/the-scale-and-nature-of-csa/trends-in-official-data/

heddlu a throseddau yn ogystal â darparwyr gofal iechyd. Bydd hyn yn rhoi darlun cliriach o nifer yr achosion cam-drin ledled Cymru.

- **Dylai gwaith polisi ym maes cam-drin plant yn rhywiol gyd-fynd â gwaith arall ar gydraddoldeb ac atal trais** – mae'n rhaid i gynllun gweithredu nesaf Llywodraeth Cymru gyfeirio at y gwaith ehangach ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), cynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth ac LHDTC+ a gwaith o'r newydd ar aflonyddu gan gyfoedion, cadernid digidol a fframwaith Cymru sy'n ystyriol o drawma. Byddai hyn yn sicrhau bod y rhyng-gysylltiad rhwng gwahanol brofiadau plant yn cael ei ystyried ac yn ganolog i well ymateb gan wasanaethau.
- **Rhaid cydnabod bod niwed ar-lein yn risg sylweddol a deinamig** – mae'n rhaid i waith Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ystyried y risg barhaus sy'n bosibl gyda niwed ar-lein. Rhaid i'r cynllun gweithredu nesaf addasu i'r risg hon sy'n newid o hyd, a chyfeirio'n uniongyrchol at y ffrydiau gwaith ar gadernid digidol a cham-drin ar-lein.
- **Rhaid mynd i'r afael â cham-drin rhywiol sy'n digwydd rhwng cyfoedion fel mater o flaenoriaeth.** Mae adroddiadau diweddar wedi dangos bod achosion o gam-drin gan gyfoedion yn digwydd mor rheolaidd fel ei fod wedi cael ei normaleiddio – ond gall diogelu cyd-destunol a dull gweithredu ar gyfer yr ysgol gyfan weithio gyda'i gilydd i feithrin gallu ysgolion a chymunedau i fod yn warchodol. Rhaid i gynllun gweithredu nesaf Llywodraeth Cymru weithio ar y cyd â'r cynllun gweithredu newydd ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Yn benodol, dylai sicrhau bod pawb sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc yn teimlo'n hyderus wrth ymateb i ddatgeliadau, a bod diogelu cyd-destunol a 'phwysoliad cyd-destun' yn rhan annatod o ymarfer.
- **Rhaid i waith atal fod yn ganolog** – dylai'r cynllun gweithredu nesaf gynnwys gwaith ymyrraeth gynnar i herio agweddau ac ymddygiad camdriniol. Ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio gormod ar yr ymateb gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Mae angen i'r ymyrraeth ddigwydd yn gynharach yn nhaith y rheini sy'n cam-drin. Dylai hynny gynnwys gweithio gyda phobl ifanc yng nghyd-destun ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion. Hefyd dylid cael rhaglenni gwaith clir lle mae pobl a gafwyd yn euog ond sydd heb gael dedfryd, neu'r rheini sy'n destun ymchwiliad, yn gallu cael gafael ar gymorth.
- **Rhaid i'r cyllid ar gyfer gwasanaethau ymateb a chymorth fod yn gynaliadwy** – cyllid i gyflawni'r tair elfen, sef atal, amddiffyn a chymorth, ledled Cymru yw sylfaen cynllun gweithredu llwyddiannus. Mae adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth therapiwtig i blant sydd wedi cael eu cam-drin. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod ymwybyddiaeth wedi arwain at fwy o atgyfeiriadau, ac mae angen i wasanaethau arbenigol y sector gwirfoddol gael digon o adnoddau i ddarparu arferion diogel ac i allu ymateb i'r galw na welwyd ei debyg o'r blaen am gwnsela a chymorth. Er enghraifft, er bod tair gwaith yn fwy o oedolion nag o blant wedi cael eu cyfeirio at Ganolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru, mae'r amseroedd aros am gwnselwyr plant ddwywaith yn fwy na'r rhestr aros ar gyfer gwasanaethau oedolion. Mae hyn yn amlygu'r angen am fwy o gwnselwyr Plant a Phobl Ifanc yn y sefydliad. Rhaid i wasanaethau gael digon o adnoddau hefyd i weithio mewn ffordd arloesol yn dilyn Covid, fel cynnig cymorth ar-lein pan fydd yn briodol a phan fydd pobl ifanc yn ffafrio hynny.

**Cyflwyniad a hanes**

Mae'r adroddiad hwn gan Saving Futures: Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol yn ystyried effaith a gwaddol cynllun gweithredu cenedlaethol cyntaf Cymru ar atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb i hynny[3]. Roedd y Grŵp Trawsbleidiol yn rhan ganolog o'r broses o alw am gynllun gweithredu: yn ein hadroddiad cychwynnol yn 2016, nodwyd y cynnydd mewn gweithgarwch – sydd i'w groesawu – i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, ond bod

[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-atal-ac-ymateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol.pdf

hyn yn aml yn canolbwyntio ar gam-drin mewn sefydliadau neu ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r dulliau hyn, yn ein barn ni, yn tueddu i beidio â chydnabod natur gudd cam-drin plant yn rhywiol, yn enwedig pan fydd yn digwydd mewn lleoliadau teuluol a lleoliadau eraill lle mae plant a phobl ifanc yn dod i gysylltiad rheolaidd ag oedolion maen nhw'n eu hadnabod.

Roedd y Grŵp Trawsbleidiol yn dweud yn glir bod angen strategaeth genedlaethol gynhwysfawr ar Gymru i atal cam-drin plant yn rhywiol, sy'n seiliedig ar ddull gweithredu ar gyfer iechyd y cyhoedd. Wrth galon y strategaeth, yn ôl ein dadl ni, dylid cael dull gweithredu lle mae pob plentyn, rhiant/gofalwr, athro, gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn deall beth mae cam-drin plant yn rhywiol yn ei olygu, ac yn gwybod sut gallant fod yn rhan o'r gwaith o'i atal.

Roedd ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru, yn dilyn galwadau a gweithgarwch yn ein blwyddyn gyntaf, wedi cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol.

**Gwaddol y cynllun gweithredu cyntaf**

Dyma oedd y cynllun gweithredu cyntaf o'i fath yn y DU, ac mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn falch o fod wedi cael cyfle i ymgysylltu â'r cynllun yn rheolaidd. Nod y cynllun oedd chwalu'r distawrwydd sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol, a'i dynnu o'r cysgodion. Rydym yn teimlo bod cynnydd wedi'i wneud i roi sylw i gam-drin plant yn rhywiol, a chydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud mwy o waith ar atal cam-drin plant yn rhywiol, ond mae angen gwneud mwy.

Ers lansio'r cynllun gweithredu yn 2019, mae'r Grŵp Trawsbleidiol wedi defnyddio ei gyfarfodydd i fonitro cynnydd ac ystyried lle mae bylchau'n parhau. Hefyd, ym mis Mai 2022, cyfarfu ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ag arbenigwyr ym maes cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru i ystyried yr un mater. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y naill a'r llall, ac mae'n gwneud y sylwadau canlynol:


***Mae mwy o ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol ers lansio'r Cynllun Gweithredu***

**Canfuwyd**

Mae comisiynau gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at nifer o adnoddau sy'n ceisio gwella dealltwriaeth y cyhoedd o gam-drin plant yn rhywiol. Mae Stop It Now! Cymru wedi creu adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac oedolion gwarchodol, ac maen nhw wedi cael eu llwytho i lawr 6,086 o weithiau i gyd ledled Cymru ers 2020.

Hefyd, mae Stop It Now! wedi cofnodi ymatebion cyfranogwyr yn ei sesiynau addysgu'r cyhoedd, sy'n dangos mwy o wybodaeth a hyder wrth ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

*Graff 1 – Atebwyr yn hunangofnodi eu gwybodaeth, eu hyder, eu gallu a'u sgiliau fel 'Uchel' neu 'Uchel Iawn'. * Cofiwch mai dim ond sesiynau 'gallu' i rieni y mae'n eu mesur**




Mae ymchwil gan Stop it Now! Cymru yn dangos bod y sesiynau hyfforddi yn cael effaith yn gyffredinol, ac yn dystiolaeth bellach o hynny fe enwodd 97% dri cham y byddent yn eu cymryd, nawr ac yn y dyfodol, i helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae'r camau hyn yn cynnwys gwella cynllun diogelwch y teulu, cyfathrebu'n agored â phlant am berthnasoedd iach, rhannu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu gydag aelodau o'r teulu, a rhoi mesurau diogelu ar waith ar gyfer y rhyngrwyd.

Mae mwy o ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol wedi arwain at gynnydd yn y galw am sesiynau hyfforddi a chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau. Mae RASASC Gogledd Cymru wedi lansio nifer o brosiectau newydd[4], a fydd yn

[4] 1. Prosiect Ruthe – Uned therapi symudol RASASC Gogledd Cymru sy'n darparu ymyriadau therapiwtig ar draws Gogledd Cymru, gan gynyddu mynediad i'r rheini nad ydynt yn gallu cyrraedd canolfannau. Mae Prosiect Ruthe hefyd yn mynd i ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o drais rhywiol a RASASC Gogledd Cymru, ac mae gweithwyr cymorth hyfforddedig yn bresennol mewn digwyddiadau a sesiynau galw heibio mewn argyfwng.

2. Addewid ac Ymgyrch #Don'tStealMyFuture RASASC Gogledd Cymru – rhaglen hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o drais rhywiol a oedd yn targedu pobl ifanc.

angenrheidiol i godi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o atgyfeiriadau ac o gael effaith sylweddol ar y sefydliad.

Mae rhestrau aros RASASC Gogledd Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc wedi dyblu yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2021/22) wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae data'r chwarter diweddaraf adeg ysgrifennu'r adroddiad (Ch2 2022/23) yn awgrymu y disgwylir cynnydd pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Dywed RASASC Gogledd Cymru fod nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer plant oed cynradd wedi cynyddu, sy'n peri pryder. Mae'n teimlo bod hyn yn deillio'n uniongyrchol o Covid (mae rhagor o fanylion ar gael isod o dan 'Effaith Hirdymor Covid'), a gwaith y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol/cam-drin plant yn rhywiol i godi mwy o ymwybyddiaeth.

Mae RASASC Gogledd Cymru hefyd yn gweld bod gan fwy o blant anghenion cymhleth sy'n galw am gymorth ychwanegol a therapi tymor hwy, sy'n cael effaith sylweddol ar RASASC Gogledd Cymru a'r staff presennol.

Nid eithriad yw'r pwysau cynyddol ar wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol. Mae adborth a gasglwyd o Gyfarfodydd Aelodau Rhanbarthol Survivors Trust, a fforymau ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn awgrymu bod gwasanaethau sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc yn teimlo'r pwysau'n gyffredinol. Yn ôl gweithwyr proffesiynol, mae'r rhestrau aros i gael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn rhy hir ar gyfer plant sydd angen cymorth iechyd meddwl arbenigol ar wahân i'r sector cam-drin plant yn rhywiol.


**Y camau y mae angen eu cymryd**

Mae mwy o ymwybyddiaeth yn rhywbeth i'w groesawu, ond mae angen gwerthuso sut mae gwybodaeth wedi newid ymddygiad a dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol. Rhaid i hyn, yn ei dro, gael ei ategu gan gyllid cynaliadwy ar gyfer y sector sy'n arbenigo ar faterion cam-drin plant yn rhywiol sydd, yn gyffredinol, wedi gweld nifer yr atgyfeiriadau'n cynyddu ers lansio'r cynllun gweithredu. Er y bu gostyngiad yn ystod y cyfnod clo, fel y gwelir isod, roedd nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu'n sylweddol wrth i'r cyfyngiadau symud lacio:

**<u>Atgyfeiriadau Plant a Phobl Ifanc ar gyfer RASASC Gogledd Cymru</u>**

| **Blwyddyn** | **2016-2017** | **2017-2018** | **2018-2019** | **2019-2020** | **2020-2021** | **2021-2022** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oed cynradd** | 3 | 14 | 9 | 16 | 17 | 34 |
| **Oedran Uwchradd/Coleg** | 46 | 64 | 90 | 118 | 85 | 156 |
| **CYFANSWM** | **49** | **78** | **99** | **134** | **102** | **190** |

3. Ymgyrch RASASC Gogledd Cymru ar gyfer y cyfryngau – datblygu adnoddau newydd i godi ymwybyddiaeth o RASASC Gogledd Cymru a thrais rhywiol, gyda phosteri ac adnoddau wedi'u lleoli'n strategol ar draws Gogledd Cymru.




Mae amcan naw'r cynllun gweithredu cyntaf yn ymwneud â chael gafael ar gymorth i blant sydd wedi cael eu cam-drin neu sy'n ymddwyn mewn ffordd niweidiol. Rydym yn sylwi yn adroddiad cyflawni Llywodraeth Cymru bod cymorth therapiwtig yn cael ei ystyried fel rhan o waith parhaus i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol. Ond mae angen i ni weld ymrwymiad cryfach i ariannu cymorth i blant. Mae cyllid yn hanfodol i sicrhau arferion diogel wrth i atgyfeiriadau barhau i gynyddu, ac i atal niwed i blant yn sgil amseroedd aros rhy hir ar gyfer gwasanaethau hanfodol: mae'r siart bar uchod, er enghraifft, yn dangos nifer y plant a'r bobl ifanc sydd ar restr aros ar gyfer un asiantaeth yn unig.

Mae Cerrig Camu Gogledd Cymru, sy'n gweithio gydag oedolion sydd wedi goroesi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant, wedi gweld darlun amrywiol ers i'r cynllun gael ei lansio. Unwaith eto, cofnodwyd gostyngiad amlwg mewn atgyfeiriadau yn 2020/21, a arweiniodd at naid sylweddol wrth i ni ddod allan o'r cyfnodau clo.

| Blwyddyn | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Atgyfeirio | 408 | 375 | 297 | 424 |
| Ailatgyfeirio | 139 | 153 | 102 | 97 |

Rhaid i'r broses o godi ymwybyddiaeth hefyd ystyried y rheini sy'n mynd ati i gam-drin a phobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd niweidiol. Dylai gwaith yn y dyfodol ar gam-drin plant yn rhywiol gynnwys sicrhau bod y rheini sy'n cam-drin plant yn rhywiol yn deall effaith trais rhywiol ar bobl. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc sy'n ymddwyn

mewn ffordd niweidiol. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru, yn ei hadolygiad o'r cynllun gweithredu cyntaf, wedi cydnabod yr angen am ddull gweithredu cenedlaethol ar gyfer llwybrau atgyfeirio i blant sy'n ymddwyn mewn ffordd niweidiol.

Mae adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn, gan argymell bod ymgyrchoedd rheolaidd yn cael eu comisiynu i godi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol, a bod yr ymgyrchoedd hyn yn cael eu gwerthuso i fesur eu heffaith. Gan adeiladu ar waith y cynllun gweithredu cyntaf, hoffai'r Ysgrifenyddiaeth weld mwy o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n siarad â gwahanol garfannau o blant a theuluoedd, yn enwedig carfannau sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cael cymorth fel statws mewnfudo ansicr neu Sipsiwn Roma/Teithwyr Gwyddelig, gan barhau i lunio adnoddau ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, LHDTC+ a phlant ag anableddau dysgu.

Yn olaf, mae'n hollbwysig bod y gwaith atal a chodi ymwybyddiaeth yn parhau yn y cynllun gweithredu nesaf er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a rhieni'n dal yn gallu cael gafael ar wybodaeth a deunyddiau ynghylch atal (rydym yn trafod hyn yn fanylach yn yr adrannau ar gam-drin rhwng cyfoedion a cham-drin ar-lein).

***Mae'r wybodaeth am effaith cam-drin plant yn rhywiol ar rai carfannau o blant yn anghyson***

**Canfuwyd**

Mae'r cynllun gweithredu'n ystyried cydraddoldeb o dan amcan tri, ac mae wedi comisiynu adnoddau ar gyfer rhieni a gofalwyr plant lleiafrifoedd ethnig. Er bod y rhain i'w croesawu, mae angen i ni barhau i fynd ati i ddeall yn well sut mae cael eu cam-drin yn rhywiol yn effeithio ar blant LHDTC+, plant teithwyr a phlant Du a lleiafrifoedd ethnig, er mwyn gallu targedu cymorth effeithiol gan y sector trais rhywiol. Yng nghyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ym mis Chwefror 2021, ystyriwyd amcan tri cynllun gweithredu cyntaf Llywodraeth Cymru ar atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb i hynny, gan edrych ar y rhwystrau ychwanegol y gall plant o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig eu hwynebu wrth ddatgelu eu bod wedi cael eu cam-drin. Dywedodd Jahnine Davies, o Ymchwil Listen Up, mai cyfyngedig yw ein dealltwriaeth o'r ffordd mae plant o gymunedau penodol yn datgelu achos o gam-drin. Yn ôl ei hymchwil **'Where are the Black girls in CSA research'**, *Un o'r prif themâu a drafodwyd gan y menywod yw'r ffordd mae canfyddiadau o fenywod a merched Du yn effeithio ar y broses o adnabod a datgelu achosion o gam-drin*[2]. Mae hi'n dweud bod merched du yn tueddu i gael eu cyfeirio at wasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n ymwneud â gangiau[3]. Mae'r rhagdybiaeth hon am weithgarwch cysylltiedig â gangiau ymysg pobl ifanc Du yn cael ei dwysau gan y duedd i drin merched ifanc Du fel petaent yn oedolion (adultification)[4]. Canfu ymchwil yn yr Unol Daleithiau fod pobl o'r farn bod angen llai o warchodaeth ar ferched Du, eu bod yn fwy annibynnol ac yn gwybod mwy am ryw o'u cymharu â merched gwyn o'r un oed[5].

**Y camau y mae angen eu cymryd**

Mae'r cynllun gweithredu cyntaf yn enwi ac yn cydnabod y rhwystrau ychwanegol y gallai rhai plant eu hwynebu wrth ddatgelu eu bod wedi cael eu cam-drin. Rydym yn croesawu hyn, ond rhwystrau mewn cymunedau yw ffocws y cynllun, fel anrhydedd – nid oes sôn am y rhagfarnau allanol sy'n gallu bod yn rhwystr rhag gofyn am help. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru, yn ei chamau nesaf ar atal cam-drin plant yn rhywiol, i gydnabod a dangos dealltwriaeth o'r holl rwystrau sy'n wynebu plant sydd ar y cyrion.

Mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn fwy tebygol o gael eu darganfod gan y rheini sy'n gweithio yn y gweithlu plant cyffredinol, yn enwedig y rheini sy'n bwynt cyswllt cyntaf i blant. Mae angen cymorth ar yr asiantaethau hyn i wella eu hymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol er mwyn eu galluogi i ganfod ac ymateb i bryderon yn briodol, ac i wybod am lwybrau atgyfeirio lleol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r asiantaethau hynny sy'n cynorthwyo plant sydd ar y cyrion. Yn yr un modd, mae'n rhaid i blant sydd ar y cyrion gael eu cynnwys yn y ffordd y mae gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol yn darparu cymorth, er mwyn sicrhau bod y garfan hon yn teimlo ei bod yn cael ei chlywed a'i deall.

Rydym yn cytuno â phwysigrwydd set ddata graidd sy'n adlewyrchu argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, ond rydym yn dweud yn glir ei bod yn rhaid i hyn hefyd gynnwys nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau bod plant sydd ar y cyrion yn cael mynediad teg at gymorth.

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau â'i hymrwymiad i fynd i'r afael â cham-drin rhywiol yn achos plant sydd ar y cyrion, ac i ymateb i hynny. Gofynnir hefyd i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cynlluniau yn y dyfodol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol dros sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod, er mwyn sicrhau eu bod yn deall yn well anghenion plant ar y cyrion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

***Dylai hyfforddiant cam-drin plant yn rhywiol fod yn orfodol***

**Canfuwyd**

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ymarferwyr yn teimlo'n fwy hyderus wrth ymateb i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant nag o gam-drin plant yn rhywiol, sy'n awgrymu bod hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gwella canlyniadau. Mae angen i ni weld hynny ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau ar roi gwybod am bryderon diogelu. Fodd bynnag, mae teimlad o anghysondeb o hyd ymysg y gweithlu plant o ran adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol, a pha wasanaethau sydd ar gael ledled Cymru. Dywed Stop it Now! Cymru, ar sail ei sesiynau addysgu'r cyhoedd gyda gweithwyr proffesiynol, nad ydynt bob amser yn gwybod at ba wasanaethau y gallant gyfeirio.

**Y camau y mae angen eu cymryd**

Mae angen hyfforddiant gorfodol ar gam-drin plant yn rhywiol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, y gwasanaeth prawf, yr heddlu, gweithwyr iechyd, staff ysgolion a gweithwyr cefnogi teuluoedd er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau gwybodaeth, sgiliau a hyder wrth atal, adnabod ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Rhaid cyflwyno'r hyfforddiant hwn ar bob cam, cyn cymhwyso ac ar ôl cymhwyso, a rhaid iddo fod yn rhan ganolog o ddatblygiad proffesiynol i wella hyder wrth adnabod ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol ynghylch 'Gofyn a Gweithredu' yn adnodd effeithiol sy'n helpu ymarferwyr i holi am gam-drin. Rydym yn awgrymu sesiwn orfodol sy'n canolbwyntio ar gam-drin plant yn rhywiol. Yn gysylltiedig â hynny, rydym am weld mwy o gefnogaeth i gynlluniau gwylwyr (bystander), er mwyn helpu pobl i herio agweddau sy'n gallu gwneud trais rhywiol yn erbyn plant yn rhywbeth derbyniol.

Dylai'r hyfforddiant gynnwys y canlynol:

- Dealltwriaeth o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol
- cydnabod ei fod yr un mor gyffredin â mathau eraill o niwed
- deall bod llawer o rwystrau sy'n atal plant rhag 'dweud' a chael eu clywed
- deall arwyddion a dangosyddion niwed
- teimlo'n hyderus wrth siarad â phlant am bryderon ynghylch cam-drin rhywiol
- gwybod am gamau y gallant eu cymryd yn eu rôl i ddiogelu plant

***Mae angen darlun cynhwysfawr o ba mor gyffredin yw cam-drin plant yn rhywiol***

**Canfuwyd**

Mae Canolfan Arbenigol cam-drin plant yn rhywiol wedi tynnu sylw at y ffaith bod y lefelau presennol o ddata sy'n cael ei gasglu am gam-drin plant yn rhywiol – o ran nifer yr achosion ac o ran ymateb gwasanaethau – yn gyfyngedig. Er bod gan rai asiantaethau ddata am gam-drin plant yn rhywiol, mae angen cydlynu hynny ar draws gwahanol asiantaethau yng Nghymru.

Hefyd, nid yw'r cynllun gweithredu cyntaf yn gwerthuso canlyniadau ddigon, ac felly mae bwlch gwybodaeth ynghylch a yw codi ymwybyddiaeth yn gwneud gwahaniaeth.

Er bod tystiolaeth yn dweud wrthym nad yw'r rhan fwyaf o blant yn mynegi ar lafar eu bod wedi cael eu cam-drin, a'u bod yn fwy tebygol o ddangos arwyddion bod rhywbeth o'i le, dywed Canolfan Arbenigol cam-drin plant yn rhywiol fod gweithwyr proffesiynol yn dal i ddibynnu'n drwm ar blant yn datgelu ar lafar eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Felly mae nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol, a gofnodir mewn data swyddogol, yn is o lawer na'r amcangyfrifon[5]. Mae hyn yn effeithio ar gywirdeb y data mewn cynlluniau amddiffyn sydd, yn ei dro, yn rhoi darlun anghywir i ni o nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru.

Dywed adroddiad cyflawni terfynol Llywodraeth Cymru fod pump o'r chwe bwrdd diogelu yn bwrw ymlaen â gwaith ar systemau a dulliau o gasglu tystiolaeth am ba mor gyffredin yw cam-drin plant yn rhywiol. Rydym yn falch y bydd byrddau diogelu yn defnyddio'r templed arwyddion a dangosyddion gan Ganolfan Arbenigol cam-drin plant yn rhywiol i wella'r broses adnabod.

**Y camau y mae angen eu cymryd**

Mae'r diffyg cywirdeb mewn cynlluniau amddiffyn yn creu anghysondeb rhwng uwch arweinwyr byrddau diogelu a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau i blant, o ran eu gwybodaeth am nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Mae mater ehangach ynghlwm wrth hyn hefyd, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, sef nad yw'r achosion a gofnodwyd yn cyd-fynd ag amcangyfrifon o ba mor gyffredin yw cam-drin plant yn rhywiol. Felly, mae'n addawol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o fonitro effaith y pecyn arwyddion a dangosyddion a grybwyllir uchod. Mae angen darlun go iawn, ledled Cymru, o ba mor gyffredin yw cam-drin plant yn rhywiol er mwyn sicrhau bod ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn cael blaenoriaeth. **Rydym yn awgrymu bod astudiaeth yn cael ei chynnal i weld pa mor gyffredin yw cam-drin plant yn rhywiol**, gyda chanfyddiadau'r astudiaeth honno'n cael eu defnyddio i lywio dull mwy cyfannol o gasglu data. Dylai hyn gynnwys cysylltiadau â llinellau cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir gan asiantaethau'r trydydd sector – boed yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cynlluniau amddiffyn ai peidio.

***Effaith hirdymor Covid***

Ni fyddai wedi bod yn bosibl rhagweld y pandemig pan lansiwyd y cynllun gweithredu, ac roedd y Grŵp Trawsbleidiol yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu plant yn ystod y cyfnodau clo. Yn benodol, roeddem yn croesawu'r adnoddau ar alluogi plant i ddweud wrth rywun, a'r canllawiau a ddatblygwyd ar yr hyn a fydd yn digwydd os byddan nhw'n dweud. Rydym hefyd yn cydnabod ymrwymiad amlwg Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn dal i weithio gyda phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.

Fodd bynnag, daeth graddfa'r trais a'r cam-drin sy'n digwydd yn y cartref – sy'n chwalu hawliau dynol a hawliau plant – yn amlwg iawn yn sgil pandemig Covid-19. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn rhywbeth sydd wedi digwydd erioed, ond roedd y cyfnodau clo a chael eu hynysu rhag cymorth wedi cynyddu'r risg i rai, ac wedi arwain at blant a oedd yn 'agored i niwed o'r newydd'. Gan fod plant yn gallu cymryd amser hir i ddatgelu eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, rydym yn parhau i weld llif araf a chyson o ddatgeliadau a cheisiadau am gymorth yn dilyn y pandemig. Mae gwasanaethau wedi dweud wrthym fod mwy o bryderon diogelu a phroblemau iechyd meddwl cymhleth ers y cyfnodau clo.

Ym mis Gorffennaf 2020, cyfarfu'r Grŵp Trawsbleidiol i ystyried effaith y cyfnod clo cyntaf ar draws y DU, gan ganfod y canlynol:

- **Yn ystod mis Mai 2020, roedd nifer y cysylltiadau â Childline am gam-drin rhywiol ar draws y DU wedi cynyddu 11%**

[5] https://www.csacentre.org.uk/documents/child-sexual-abuse-in-2020-21-trends-in-official-data/ tudalen 10

- **Roedd Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru wedi codi mwy o bryderon diogelu ers y cyfnod clo.**
- **Canfu RASASC Gogledd Cymru hefyd fod anghenion cleientiaid yn fwy cymhleth a dwys, gyda chleientiaid ym mhob carfan grŵp cymorth (plant, pobl ifanc ac oedolion) angen mwy o sesiynau i ddelio â'u hanghenion na chyn y pandemig.**
- **Yn ystod 10 wythnos gyntaf y cyfnod clo, roedd nifer y galwadau i linell gymorth Stop It Now! yng Nghymru wedi cynyddu 153%, wrth gymharu â'r 10 wythnos cyn dechrau'r cyfnod clo. Gwelwyd 98% o gynnydd hefyd wrth gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Troseddwyr wnaeth y rhan fwyaf o'r galwadau.**

Rhoddodd y pandemig gyfle i wasanaethau ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio. Roedd y trefniadau gwaith amlasiantaeth wedi gwella yn ystod Covid. Er enghraifft, gwelodd RASASC Gogledd Cymru gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau proffesiynol, a chynnydd mewn pryderon diogelu yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, rhoddodd y pandemig gyfle i wasanaethau ddarparu cymorth ar-lein i bobl ifanc. Bu hynny o fudd i lawer o bobl ifanc, gydag ymarferwyr yn gallu helpu mwy o bobl ifanc oherwydd nad oedd rhaid iddynt deithio, a'u bod yn gallu cyrraedd ardaloedd daearyddol ehangach.

**Y camau y mae angen eu cymryd**

Er ein bod wedi dod allan o'r cyfnodau clo ac wedi 'dod yn ôl i drefn', ni allwn ddiystyru effaith y misoedd hynny ar blant a oedd wedi'u hynysu rhag cymorth. Rhaid i'r cynllun gweithredu nesaf sicrhau bod cefnogaeth barhaus ar gael i'r sector sy'n arbenigo ar faterion cam-drin plant yn rhywiol, wrth iddo barhau i ymateb i'r llif araf a chyson a drafodwyd uchod.

***Rhaid mynd i'r afael ag achosion o gam-drin rhywiol rhwng cyfoedion fel mater o flaenoriaeth***

**Canfuwyd**

Ym mis Rhagfyr 2021 tynnwyd sylw yn adroddiad Estyn, 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon', at y nifer pryderus o blant oed uwchradd a oedd yn cael eu cam-drin yn rhywiol gan gyfoedion ar-lein, yn eu hysgolion ac fel rhan o fywyd yr ysgol. Yn yr adroddiad, dywedodd pobl ifanc wrthym fod y niwed maen nhw'n ei brofi ar-lein hefyd yn digwydd yn y byd go iawn.

Ym mis Chwefror 2022, cyfarfu'r Grŵp Trawsbleidiol i drafod goblygiadau'r adroddiad, gan ganfod y canlynol:

- Mae aflonyddu rhywiol mewn ysgolion wedi cael ei normaleiddio. Mae rhai pobl ifanc yn teimlo bod athrawon a phobl ifanc eraill yn gweld hynny fel rhywbeth normal neu ddibwys.
- Mae anghysondeb rhwng y man lle mae'r niwed yn digwydd a ffocws gwaith cymdeithasol – yn draddodiadol, y teulu sy'n cael ei asesu yn hytrach na'r cyd-destun.
- Mae targedu'r plentyn/teulu unigol a'u symud ymlaen yn gallu creu 'gwactod dioddefwyr', lle nad yw'r cyd-destun sy'n achosi'r niwed yn cael ei herio.
- Mae gan bawb gyfrifoldeb i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant, nid dim ond i gyfeirio at brosesau diogelu
- Mae staff ysgolion eisiau mwy o hyfforddiant ac adnoddau i gyflwyno'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd.

Mae tystiolaeth anecdotaidd hefyd yn awgrymu cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio drwy lwybrau asesu ffurfiol, llinell gymorth Stop it Now! a'r rhaglen Inform i bobl ifanc.

**Y camau y mae angen eu cymryd**

Canfu rhaglen Cofia ddweud, Cadwa'n ddiogel yr NSPCC a'r Grŵp Trawsbleidiol fod plant oed cynradd yn dioddef aflonyddu, a bod angen cymorth arnynt i ddweud wrth rywun. Canfu'r gwerthusiad o raglen yr NSPCC nad oedd lleiafrif sylweddol o blant yn gwybod sut i wahaniaethu rhwng ymddygiad niweidiol ac ymddygiad nad yw'n niweidiol, ac a ddylent ddweud ai peidio[2]. Yn amlwg, mae angen i ni fynd i'r afael yn gynharach ag angen sy'n dod i'r amlwg. Gwnaeth

ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar aflonyddu gan gyfoedion argymhelliad i Lywodraeth Cymru ei bod yn rhaid i'r Llywodraeth gomisiynu adolygiad o aflonyddu rhywiol mewn ysgolion cynradd. Rydym yn croesawu'r argymhelliad hwn, ac yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn.

Soniodd yr ymchwiliad hefyd am yr heriau sylweddol sy'n wynebu staff ysgolion, gan fod llawer o'r aflonyddu'n digwydd y tu allan i oriau ysgol. Dylai Llywodraeth Cymru ymwreiddio diogelu cyd-destunol fel adnodd hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin rhywiol gan gyfoedion.

- Gall pwysoli'r cyd-destun fod yn help i ganfod ym mhle mae'r risg fwyaf sylweddol o niwed yn y lleoliadau a'r mannau y mae pobl ifanc yn eu defnyddio, yn enwedig yr ysgol a'r ardaloedd cyfagos
- Gall diogelu cyd-destunol a dull gweithredu ar gyfer yr ysgol gyfan weithio gyda'i gilydd i feithrin gallu ysgol i fod yn warchodol – er enghraifft, asesu grŵp cyfoedion i weld beth yw deinameg y grŵp a pha gefnogaeth mae arnynt ei hangen.

Ym mis Medi 2022 cynhaliodd y Grŵp Trawsbleidiol ddigwyddiad dan arweiniad pobl ifanc a goroeswyr ar y rhyng-gysylltiad rhwng niwed ar-lein a cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion, mewn ymateb i adroddiad Estyn ac i gyflwyno atebion ac argymhellion i Lywodraeth Cymru. Ein neges gyffredinol i Lywodraeth Cymru yw bod rhaid i lais y rheini sydd wedi goroesi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant a'r bobl ifanc eu hunain fod yn ganolog i'r gwaith o gynllunio'r ymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Dyma rai o'r prif argymhellion o'r digwyddiad:

- Rhaid i adrannau'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus gydweithio ar y cyd â gwasanaethau arbenigol i greu strategaethau lleol i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol ar-lein a cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion. Gallai'r is-grŵp plant a phobl ifanc oruchwylio'r gwaith hwn fel rhan o'r strategaeth glasbrint genedlaethol newydd ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rhaid i'r strategaethau hyn ategu a chyfeirio at waith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a rhaid iddynt gael eu datblygu ar y cyd â phobl ifanc ac arbenigwyr drwy brofiad.
- Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i glywed lleisiau grwpiau sydd â phrofiad uniongyrchol wrth ddatblygu ei chynllun gweithredu ar gam-drin rhywiol rhwng cyfoedion a'i gwaith ar achosion o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma, nad yw'n achosi niwed pellach, ac sy'n hygyrch ac yn cynnwys yr holl anghenion. Rhaid i fecanweithiau fod ar waith hefyd i sicrhau adborth cyson gan lunwyr polisïau i grwpiau â phrofiad uniongyrchol, a bod cydnabyddiaeth deg am yr amser a'r gwaith.
- Dylai holl staff ysgolion gael hyfforddiant ar y rhyng-gysylltiad rhwng niwed ar-lein a cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion. Dylai hyn gynnwys sesiynau, wedi'u cynllunio gan bobl ifanc, am effaith cyfryngau cymdeithasol ar eu grŵp cyfoedion. Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad 14 yn adroddiad y pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y dylai'r llywodraeth weithio gydag arbenigwyr a'r bwrdd cynghori ar faterion pobl ifanc i *gasglu a chyflwyno enghreifftiau o addysg rhyw a chydberthynas y mae dysgwyr o'r farn sy'n effeithiol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol gan gyfoedion*. Ond rydym am weld hyn yn mynd ymhellach, a sesiynau wedi'u cynllunio gan bobl ifanc yn cael eu cynnwys, fel y soniwyd uchod.
- Mae ysgolion yn rhan allweddol o'u cymunedau lleol, ac yn ffynhonnell o gefnogaeth i'w teuluoedd. Dylent gael help i ddarparu strategaethau ymarferol ar gyfer teuluoedd pryderus i'w helpu i fynd i'r afael â niwed ar-lein a cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion. Dylid datblygu'r strategaethau hyn ar y cyd â phobl ifanc.
- Dylid trin niwed ar-lein yr un mor ddifrifol ag unrhyw fath arall o niwed, a dylai plant gael eu gwarchod i'r un graddau yn eu bywyd ar-lein a'u bywyd yn y byd go iawn. Rhaid i ysgolion a'r cwmnïau technoleg sicrhau bod lleisiau pobl ifanc a grwpiau â phrofiadau uniongyrchol yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt. Mae'n hollbwysig ein bod yn gweld y Bil Niwed Ar-lein yn mynd drwy Senedd y DU cyn gynted â phosibl, ond rhaid sicrhau bod diogelwch plant yn dal wrth galon y ddeddfwriaeth. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ein cais i sicrhau Deddf gadarn sy'n gweithio i blant.
- Dylid defnyddio data gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) i gadw golwg ar effaith niwed ar-lein ar bobl ifanc yng Nghymru. Dylai pobl ifanc helpu i ddrafftio cwestiynau i'w cynnwys yn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a fydd, yn eu tro, yn cael eu darparu i ysgolion. Drwy wneud hynny'n rheolaidd, a chadw'r data ar lefel Cymru ar wahân, bydd yn rhoi darlun clir o effaith niwed ar bobl ifanc. Rydym yn falch

bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad pump y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gasglu data ar aflonyddu rhywiol mewn ysgolion. Fodd bynnag, dylid ehangu hyn i gynnwys niwed ar-lein hefyd.

***Rhaid cydnabod bod niwed ar-lein yn risg sylweddol a deinamig***

**Canfuwyd**

Fel yr amlinellwyd yn yr adran uchod, mae elfen ar-lein i lawer o'r achosion o gam-drin rhwng cyfoedion, ond mae cam-drin ar-lein hefyd yn fygythiad ehangach, gyda phlant yn cael eu hudo gan oedolion i gael perthynas amhriodol ar-lein.

Roedd y pandemig hefyd wedi cynyddu'r risg o niwed ar-lein wrth i blant dreulio mwy o amser ar-lein yn ystod y cyfnodau clo, a arweiniodd at greu mwy o hunanddelweddau a mwy o gyfleoedd i droseddwyr niweidio plant. Canfuwyd mwy o achosion a oedd yn cynnwys plant iau yn ystod y pandemig nag yn y gorffennol.

**Y camau y mae angen eu cymryd**

Roedd ein digwyddiad i bobl ifanc a goroeswyr yn cynnwys sesiwn ymylol benodol ar niwed ar-lein a rôl y diwydiant technoleg i amddiffyn pobl ifanc yn well. Mae argymhellion y sesiwn ymylol yn cynnwys:

**Cymorth i rieni/gofalwyr gyda niwed ar-lein a thechnoleg**

- Mae niwed ar-lein yn rhywbeth deinamig sy'n newid o hyd. Mae'n hanfodol bod rhieni/gofalwyr yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth am risgiau ar-lein, ac yn gwybod sut mae helpu eu plentyn os yw'n poeni. Gallai ymateb anwybodus neu ddiystyriol olygu na fydd y plentyn yn gofyn neu'n datgelu eto. Rydym yn ategu argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn ei adroddiad terfynol y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth rheolaidd, ac yn awgrymu y dylid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am borth hyfforddiant rhieni National Online Safety drwy ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth.
- Yn gysylltiedig â'r argymhelliad uchod, dylid cael rhaglen dreigl o gefnogaeth i deuluoedd sy'n mynd i'r afael â niwed ar-lein a cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen hon drwy ymgyrch genedlaethol, gyda chefnogaeth ar lefel leol i'w gweithredu. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o rannu gwybodaeth, fel mater o drefn, â rhieni nad ydynt yn cam-drin. Rydym ni'n teimlo y dylai'r rhain gael eu creu ar y cyd gan bobl ifanc ac y dylent fod ar gael ar-lein ac mewn mannau ffisegol, gan gynnwys:
  - Dolenni at wefannau i helpu i roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am y mathau o gam-drin
  - Arwyddion i gadw llygad amdanynt y gallai eu plentyn fod yn cael ei gam-drin, gan gynnwys cyngor ar sut i helpu a ble i droi ato i gael help
  - Dylid rhoi cymorth penodol i rieni/gofalwyr pobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd niweidiol.

**Cyfeirio, cefnogi a chymedroli ar-lein**

- Dylai fod llwybrau clir ar gael i gael cymorth ar gyfer niwed ar-lein, yn ogystal â systemau effeithiol i blant a phobl ifanc roi gwybod am niwed. Dylai hyn gynnwys cymorth gorfodol gan apiau pan fydd pobl ifanc yn profi niwed ar-lein.
- Dylai niwed sy'n cael ei achosi yn y byd ar-lein gael ei drin yr un fath â niwed yn y byd go iawn, gyda'r ymatebion diogelu ar-lein yn cael eu trin yr un mor ddifrifol ag unrhyw bryder diogelu arall.
- Dylai cynllun cadernid digidol Llywodraeth Cymru sicrhau bod arferion yn cael eu datblygu mewn ymateb i niwed ar-lein, a bod anghysonderau o ran ymateb ysgolion i gam-drin ar-lein yn cael sylw.
- Dylai plant ym mlwyddyn chwech yr ysgol gynradd gael help i ddefnyddio ffonau symudol yn ddiogel wrth iddynt symud i flwyddyn saith, gan gydnabod bod llawer o blant 11 oed yn cael eu ffôn cyntaf wrth ddechrau

yn yr ysgol uwchradd. Mae’r Gweinidog wedi ymrwymo i adolygu’r defnydd o ffonau symudol yn y canllawiau ar Reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a gyhoeddwyd yn 2012. Mae hyn yn gyfle i gynnwys cefnogaeth i blant iau wrth iddynt fynd i addysg uwchradd.